# Cyngor Sir Ddinbych

# Denbighshire County Council

At: Y Cadeirydd ac Aelodau
Pwyllgor Safonau

Dyddiad: 20 Mehefin, 2007

Holer am: C I Williams

Ffoniwch: 01824 716204

e-bost: Cyril.williams@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Syr / Madam

Gofynnir i chi ddod i gyfarfod o'r **PWYLLGOR SAFONAU** a gynhelir yn **YSTAFELL GYNHADLEDD**, **TY NANT, FFORDD LLYS NANT, PRESTATYN, DDYDD GWENER, 29AIN MEHEFIN 2007** am **10.00a.m.**

Yr eiddoch yn gywir

I K Hearle
Clerc y Sir

**AGENDA**

Rhennir Agenda'r cyfarfod yn ddwy ran. Trafodir eitemau Rhan I ym mhresenoldeb y Wasg a'r Cyhoedd oni bai bod yr Aelodau'n penderfynu gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd tra'n ystyried eitem oherwydd fel arall mae'n debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu. Fodd bynnag, pan fo eitemau yn Rhan II, argymhellir bod yr Aelodau'n gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd tra'n ystyried yr eitemau hynny, am y rhesymau a nodir uchod.

**YMDDIHEURIADAU**

**RHAN I**

**1 MATERION BRYS**

Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100(B)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**2 COFNODION**

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ddydd Gwener 2il Mawrth 2007 (amgeuir copi)

**3 AELODAETH**

Oherwydd ymroddiad gwaith mae'r Aelod Annibynnol Ian Lawson wedi ymddiswydddo o'r Pwyllgor ac mae'r Cyngor Sir wedi cytuno ar y dull o recriwtio Aelod Annibynnol newydd.

Prif Weithredwr/Chief Executive Ian Miller MA (Oxon), FRSA
Neuadd y Sir /County Hall,, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

**4 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

Nodi presenoldeb Aelodau o'r Pwyllgor Safonau mewn cyfarfodydd Cyngor Sir, Cyngor Tref a Chyngor Cymuned a derbyn eu hadroddiadau.

**5 AMODAU YMESGUSODI (DISPENSATIONS)**

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro yn gofyn am amodau ymesgusodi i Gynghorwyr Sir am faterion Addysg (amgeuir copi).

**6 PWYLLGOR SAFONAU BYWYD CYHOEDDUS: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2006**

Nodi derbyn yr adroddiad ac ystyried y darnau a atodir sy'n gosod allan Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus, (Nolan Seven Principles of Public Life), rhagair y Cadeirydd, arolwg o adroddiad safonau ethegol Llywodraeth Leol ac amodau cyfeirio'r Pwyllgor. Gellir gweld yr adroddiad cyfan ar www.public-standards.gov.uk.

**7 MONITRO'R COD YMDDYGIAD**

Ystyried adroddiad llafar gan Clerc y Sir ar y sefyllfa ddiweddaraf yn dilyn diweddariad sydd i'w roi i Swyddogion Monitro ar 22ain Gorffennaf 2007.

**8 CYFARFODYDD Y DYFODOL**

Cytuno ar ddyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau sef dydd Gwener 14eg Medi 2007 am 10.00a.m.. a chyfarfodydd dilynol ar 2il Tachwedd 2007, 14eg Rhagfyr 2007, 25ain Ionawr 2008, 7fed Mawrth 2008 a 18fed Ebrill 2008.

**9 EITEMAU BRYS**

Ystyried unrhyw eitemau y mae'r Cadeirydd wedi penderfynu eu bod yn rhai brys (yn unol ag Adran 100(b)(4) Deddf Llywodraeth Leol,1972) y nodwyd eu cynnwys o dan eitem 1 uchod.

**AELODAETH**

Aelodau Annibynol
Mr C.B. Halliday (Cadeirydd)
Mr G.F. Roberts (Is-Gadeirydd)
Mrs P White
Swydd Wâg

Aelodau Cyngor Sir
Councillor P.A. Dobb
Councillor R Ll Williams

Aelod Cyngor Tref/Cymuned
Councillor P. Glynn

**COPÏAU:** Pob Cynghorydd er gwybodaeth, Y Wasg a Llyfrgelloedd, Cynghorau Tref a Chymuned